# Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Abergynolwyn, Nos Lun 11eg Mawrth 2019

Presennol: Is Gadeirydd Steve Lewis, Robert Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw Wendy Whitby, Miriam Webb, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad Gadeirydd Elwyn Evans, H.E. Thompson (Sâl)

Datgan Diddordeb: dim

Croeshawyd pawb gan yr Is Gadeirydd Steve Lewis. a chroeso arbennig i'r Cynghorwraig newydd sef Miriam Webb. Mi llofnododd datganiad derbyn swydd.

1. Derbyniwyd cofnodion Chwefror a llofnodwyd gan Is Gadeirydd Steve Lewis
2. Cae Chwarae: Pasiwyd i gael cyfarfod ar y safle i drafod y Cae Chwarae. Pasiwyd i adael Sioe Abergynolwyn o dan Cadeiryddiaeth Jennie Evans ddefnyddio y cae 13eg Gorffennaf o 12-4. Cadarnhawyd ei bod ganddynt ysiwriant. Hefyd caniatawyd i Bwyllgor Y Ganolfan ddefnyddio y Cae ar adeg y Ras Hwyaid 5ed Mai, hwythau ag ysiwriant eu hunan.
3. Mynwentydd: Derbyniwyd llyfr mynwent gan y Cyng Robert Jones.
4. Llwybrau: Derbyniwyd £300.00 gan Cyngor Gwynedd. Cadarnhawyd bod y goeden ar llwybyr tu ol Llyn Mwyngul wedi cael ei docio.
5. Toiledau Cyhoeddus: Pasiwyd i gytuno efo Cyngor Gwynedd i'r Cynllun Partneriaethu am 2019-20 a 2020-21, mi oedd isio pwyso ar Cyngor Gwynedd i godi safon y toiledau.
6. Cyng.Gwynedd: Adroddodd Cyng Lawton bod treth y Cyngor yn codi 5.8%, Heddlu 7.74%. Nododd bod y Cynghorau Cymuned yn cymeryd y slac. Yr oedd cytundeb deddf leol ynglyn a draeniad. Diolch Cyng. Lawton.
7. Rheoli Data: Dal i aros am gwrs wrth law.
8. Is Gadeirydd S. Lewis: Adroddodd ei fod mewn cysylltiad a Dylan Jones, adran Draffig, Heddlu a Go Safe, ond ni allwn cael arwyddion llai 30mya o fewn y Pentref, gan fod goleuadau yn y pentref.
9. Rheolau Ariannol: Derbyniwyd y Rheolau Ariannol gyda newidiadau i'n sefyllfa ni.
10. Cyflog Clerc:: Pasiwyd i dalu'r Clerc am y flwyddyn, costau trafeilio, a chostau mân.
11. Diolch: Derbyniwyd lythyr gan Ffermwyr Ieuanc Meirionnydd.
12. Parc Eryri: Cynllun Datblygu Lleol Eryri wedi ei mabwysiadu ar 6ed Chwefror2019, gweler www.eryri.llyw.cymru neu y Llyfrgell yn Nhywyn.
13. Tyres: Cafwyd adroddiad bod tiers wedi eu lluchio yn y coed ger yr Hendre.
14. Dilys Williams: Derbyn e bost yn dangos pryder am lygod mawr a cwn yn baeddu. Yr oedd Cyngor Gwynedd yn gwybod am hyn. Cynnig bod y Cambrian News yn cael gwybod.
15. Taliadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eileen Jones | cyflog/costau | 1,643.19 | siec958 |
| Un Llais Cymru | ymaelodi | 77.00 | 959 |

Cartref Mari Jones:

Dim